

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Wardiau Santes Non a Sant Caradog,
Canolfan Bro Cerwyn, Ysbyty
Llwynhelyg, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 16, 17 a 18 Hydref 2023

Dyddiad cyhoeddi: 18 Ionawr 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	20
4.	Y camau nesaf	25
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	26
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	27
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	28

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Llwynhelyg, Bro Cerwyn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 16, 17 a 18 Hydref 2023. Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Sant Caradog - Derbyniadau aciwt ar gyfer iechyd meddwl oedolion
- Santes Non - Iechyd meddwl pobl hŷn.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd nifer annigonol o holiaduron, fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad gwnaethom siarad â staff a chleifion ac mae rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff ymroddedig a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Roedd y staff yn dangos agwedd ofalgar, garedig a thosturiol at y cleifion.

Roedd amrywiaeth o weithgareddau addas ar gael yn yr ysbyty ac yn y gymuned i'r cleifion ymgymryd â nhw.

Gellid gwella'r amrywiaeth o wybodaeth sydd ar gael yn yr ysbyty i'r cleifion a'r teuluoedd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen adolygu a gwella'r bwydlenni heb glwten i gleifion
- Mae angen arddangos gwybodaeth ar y wardiau i'r cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd barchus
- Gwaith tîm da a staff sy'n llawn cymhelliant
- Caiff gweithgareddau a grwpiau eu darparu i'r cleifion gan y tîm therapi galwedigaethol
- Roedd y cleifion yn canmol y staff gan ddweud eu bod yn cael eu trin yn dda.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Er bod yr amgylchedd ffisegol ar y ddwy ward yn cael ei gynnal i safon dda, gwnaethom nodi rhai meysydd i'w gwella.

Gwelsom fod y staff yn cwblhau'r prosesau a'r dogfennau clinigol fel sy'n ofynnol.

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, i reoli heintiau ac iechyd a diogelwch. Roedd hyn yn galluogi'r staff i barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â sicrhau bod yr ardaloedd awyr agored yn lle dymunol a diogel i'r cleifion ei ddefnyddio.

Hefyd, mae angen i'r bwrdd iechyd ymgysylltu â'r grŵp o staff mewn perthynas â'r defnydd o larymau personol a sut y gellir cefnogi'r staff i deimlo'n ddiogel wrth weithio mewn ardal ynysig.

Roedd dogfennaeth gyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Storio cyfarpar COSHH yn gywir
- Cynnal a chadw tir yr ysbyty
- Diogelwch y staff a'r defnydd o larymau personol
- Cydymffurfio â'r gofynion o ran tymheredd yr oergell ar ward Santes Non.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Prosesau diogel ac effeithiol ar gyfer rheoli meddyginiaethau.
- Sgiliau llonyddu'r staff wrth reoli ymddygiadau cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff cyfeillgar, proffesiynol a charedig a oedd yn dangos ymrwymiad i roi gofal o ansawdd uchel i'r cleifion.

Gwelsom fod strwythur llywodraethu effeithiol ar waith o ran cyfarfodydd i drafod digwyddiadau, cwynion a materion sy'n ymwneud â gofal cleifion.

Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau o ran nifer y staff er mwyn sicrhau bod y staff yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn bodloni gofynion y grwpiau cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cyfraddau cwblhau hyfforddiant Cynnal Bywyd Brys a hyfforddiant gorfodol ar y ddwy ward
- Nifer y staff ar y ddwy ward.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd rheolwyr y wardiau yn darparu arweinyddiaeth gadarn i'r staff
- Tîm llawn cymhelliant sy'n canolbwyntio ar y cleifion
- Grŵp cadarn a chefnogol o staff.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Dosbarthwyd holiaduron AGIC gennym yn ystod yr arolygiad er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Ni chawsom unrhyw ymatebion i'r holiaduron. Fodd bynnag, roedd y cleifion a'r gofalmwy'r y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn canmol y staff a'r gofal a ddarperir iddynt. Gwnaethom hefyd adolygu'r cofnodion adborth mewnol gan gleifion i'n helpu i lunio barn ar brofiad cyffredinol cleifion.

Gwnaethom nodi enghreifftiau o ganmoliaeth drwy lythyrau a chardiau diolch ar y ddwy ward ac roedd y bwrdd iechyd yn cynnal arolygon cleifion a theuluoedd hefyd.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y staff yn eu trin yn dda a'u bod yn garedig wrthynt. Ymysg rhai o'r sylwadau a ddarparwyd gan y cleifion roedd:

"Mae pawb yn garedig yma, ac nid dim ond i fi ond i bobl eraill hefyd". "Rwy'n teimlo'n ddiogel".

"Rwy'n cael gofal da, mae'r nyrsys yn dîm da sy'n gwneud popeth y gallant i fy helpu".

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael asesiadau corfforol priodol adeg eu derbyn, yn ychwanegol at eu gofal iechyd meddwl. Roedd y cleifion hefyd yn cael archwiliadau iechyd corfforol parhaus yn ystod eu harhosiad, megis rheoli a monitro pwysau.

Gwnaethom holi a oedd cyfleoedd i'r cleifion ddefnyddio'r ardaloedd awyr agored. Roedd gan y ddwy ward ardd, ond roedd yr ardaloedd hyn wedi gordyfu gyda llawer o chwyn, dodrefn wedi torri a gwelyau plannu uchel â phren a oedd wedi torri ac yn pydru. Yn ogystal, roedd yr ardal gysgodol yn ward Santes Non yn fudr ac yn

flêr, gyda chwyn yn tyfu ar y to ac i mewn i'r landeri. Ar y cyfan, roedd yr ardaloedd awyr agored ar y ddwy ward mewn cyflwr gwael. Roedd hyn yn cynnwys y fynedfa i dir yr ysbyty sy'n arwain at y ddwy ward.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud i wella edrychiad a diogelwch yr ardaloedd awyr agored er mwyn i'r cleifion eu defnyddio.

Drwy gydol yr arolygiad, ar y ddwy ward, gwelsom fod y cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a therapiau yn rheolaidd. Roedd gweithgareddau wythnosol rheolaidd yn cael eu cynnal ar y ddwy ward megis clwb brecwast lle mae'r cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgaredd coginio fel grŵp, clybiau garddio lle caiff y cleifion eu cludo i blasty lleol i helpu gyda'r gwaith garddio, a'r côr 'Forget-me-not' lle mae aelodau o gôr yn dod i mewn i helpu gyda sesiynau canu. Roedd cyfle i ryngweithio â chi fel rhan o therapi anifeiliaid anwes hefyd, a dywedodd perthnasau wrthym y gall cŵn cleifion ddod i'w gweld.

Roedd y tîm therapi galwedigaethol yn ymgysylltu'n agos â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad ac roedd y staff yn frwdfrydig iawn pan gyfwelwyd â nhw, gan siarad yn frwd am eu rolau.

Gofal Urddasol a Pharchus

Gwnaethom nodi bod yr holl gyflogaeth, staff wardiau, uwch-reolwyr, a staff gweinyddol, yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig am eu rolau a'r modd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Gwelsom y rhan fwyaf o'r staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion neu bryderon roedd y cleifion yn eu codi. Roedd hyn yn dangos bod gan y staff agweddau ymatebol a gofalgarn tuag at y cleifion.

Nodwyd bod mynedfa'r ward wedi'i chloi a bod system intercom ar y ward yn atal unrhyw fynediad heb awdurdod.

Roedd gan rai o'r ystafelloedd gwely gyfleusterau en-suite i'r cleifion a oedd yn rhoi safon dda o breifatrwydd ac urddas. Gallai'r cleifion gloi eu hystafelloedd ond gallai'r staff eu hagor o hyd pe bai angen. Gwelsom y staff yn parchu preifatrwydd y cleifion drwy gnocio ar ddrysau'r ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi cyn mynd i mewn.

Roedd panel gweld ar ddrws pob ystafell wely a oedd yn galluogi'r staff i arsylwi o'r coridor heb agor y drws er mwyn osgoi amharu ar y cleifion wrth iddynt gysgu. Yn ystod ein taith o gwmpas yr ysbyty, roedd yn gadarnhaol nodi bod y paneli gweld yn cael eu cadw ar gau oni bai eu bod yn cael eu defnyddio er mwyn amddiffyn preifatrwydd y cleifion wrth i bobl fynd heibio'r ystafelloedd.

Wrth fwrw golwg ar gofnod un claf, nid oedd yn glir a oedd y gwely presennol yn diwallu anghenion y claf.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu sefyllfa'r claf hwn a sicrhau yr ystyrir darparu gwely newydd ar ei gyfer.

Roedd y cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd a storio eu heiddo personol. Roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal mewn perthynas â phob eitem personol er mwyn sicrhau diogelwch pob claf. Roedd hyn yn cynnwys y defnydd o ffonau symudol personol. Roedd ffôn ar gael yn yr ysbyty i'r cleifion gysylltu â ffrindiau a theulu os oedd angen.

Roedd y ward yn cynnig gofal i ddynion a menywod a all fod yn heriol o ran agweddau ar ofal ag urddas; fodd bynnag, roedd y staff yn wybodus ac roedd camau diogelu a phrosesau effeithiol ar waith i reoli'r heriau hyn er mwyn sicrhau gofal ag urddas.

Roedd cyfleusterau golchi dillad yn yr ysbyty a chaiff y cleifion eu hannog i'w defnyddio gyda chymorth gan y staff pan fo angen. Yn ystod un cyfarfod roeddem yn rhan ohono, dywedodd claf yr hoffai olchi ei dillad ei hun. Ymdriniodd y staff â hyn yn ddi-oed a daethpwyd o hyd i ateb er mwyn sicrhau y gallai'r claf ddefnyddio'r ystafell golchi dillad ar adeg a oedd yn addas i'r claf.

Gwybodaeth i gleifion

Nodwyd mai prin oedd y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos yn yr ysbyty i helpu'r cleifion a'u teuluoedd i ddeall eu gofal. Nid oedd unrhyw fanylion i'w gweld am sefydliadau a all roi help a chymorth i gleifion a theuluoedd y mae cyflyrau iechyd meddwl yn effeithio arnynt.

Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael i'w darllen am rôl AGIC a sut y gall cleifion gysylltu â'r sefydliad.

Roedd gwybodaeth am eiriolaeth a rhwydweithiau cymorth eraill ar gael ac, yn ystod yr arolygiad, gwelsom eiriolwyr yn cyfarfod â chleifion.

Roedd llyfrynnau gwybodaeth i gleifion ar gael, ond dywedodd un claf wrthym y byddai wedi hoffi cael gwybodaeth fanylach am amseroedd bwyd ac ymweld pan gafodd ei dderbyn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r hysbysfyrddau ar y ward a sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol ac yn berthnasol. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y

rhoddir sylw penodol i'r wybodaeth a gaiff ei harddangos. Rhaid i'r wybodaeth sy'n cael ei harddangos fod yn berthnasol i'r cleifion a'r ymwelwyr.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hybu a diogelu hawliau'r cleifion.

Roedd cyfleusterau ar gael i'r cleifion weld eu teuluoedd yn breifat. Roedd ystafelloedd hefyd ar gael i'r cleifion dreulio amser ar wahân i'r cleifion eraill yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau. Roedd trefniadau ar waith i'r cleifion wneud galwadau ffôn yn breifat.

Gwnaethom edrych ar y cofnodion ar gyfer y cleifion a oedd yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf) a gweld bod y ddogfennaeth a oedd yn ofynnol gan y ddeddfwriaeth ar waith yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd hyn yn dangos bod hawliau'r cleifion wedi cael eu hybu a'u diogelu fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Caiff ansawdd y dogfennau hyn eu trafod yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

Amserol

Gofal Amserol

Roedd y bwrdd iechyd yn cynnal cyfarfodydd rheoli statws gwelyau a gwybodaeth i gleifion digonol er mwyn trafod lefelau defnydd gwelyau, ac unrhyw faterion a oedd yn dod i'r amlwg mewn perthynas â'r cleifion.

Roedd rhai cleifion yn aros i adael yr ysbyty, ond nid oedd y lleoliadau cymunedol yn barod eto. Roedd tystiolaeth fod y bwrdd iechyd yn monitro hyn yn agos ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cleifion am statws eu lleoliadau.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dywedodd pob claf y gwnaethom siarad ag ef ei fod yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu siarad ag aelod o staff pe bai angen. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn hapus yn yr ysbyty a bod y staff yn garedig ac yn barod eu cymwynas. Roedd parch amlwg a chydberthnasau sicr a chryf rhwng y staff a'r cleifion.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai'r cleifion gael help gan gyrff allanol i roi cymorth ac arweiniad, megis cyfreithwyr neu wasanaeth eirioli. Gyda chytundeb y cleifion, lle bynnag y bo modd, caiff eu teuluoedd a'u gofalwyr eu cynnwys mewn cyfarfodydd.

Roedd sawl cyfarfod yn cael ei gynnal a oedd yn cynnwys y cleifion a'r staff. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cynnwys cyfarfodydd cynllunio gofal unigol ffurfiol a chyfarfodydd cymunedol grŵp.

Roedd gan y staff yn yr ysbyty a oedd yn siarad Cymraeg wisg yn dangos eu bod yn gallu siarad yr iaith. Roedd hyn yn golygu y gallai'r cleifion a'r ymwelwyr gyfathrebu'n Gymraeg â'r staff.

Rhoddir ffurflenni adborth i gleifion pan fyddant yn gadael yr ysbyty er mwyn rhoi gwybodaeth am eu harhosiad a sut y gellir gwella.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo a diogelu hawliau'r cleifion.

Roedd y ddogfennaeth gyfreithiol a welsom i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Roedd y cleifion a oedd yn destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) wedi cael asesiadau amserol ac roedd prosesau ar waith ar y ddwy ward i sicrhau bod adolygiadau yn cael eu cynnal.

Roedd gwasanaethau eirioli ar gael i bob claf. Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol ar eu cyfer a bod aelodau o'r teulu neu eiriolwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan lle y bo'n bosibl.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd mynediad i'r ward yn ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig. Gallai'r staff gael mynediad i'r ward drwy ddefnyddio cerdyn adnabod, ac roedd ymwelwyr yn canu'r gloch wrth fynedfa'r ward.

Nid oedd y bwrdd iechyd yn defnyddio'r ystafell Adran 136 mwyach a oedd yn arfer bod ar gael ar Ward Sant Caradog. Yn ystod yr arolygiad, roedd yr ardal hon yn cael ei defnyddio fel ystafell ymwelwyr a dywedwyd wrthym nad oedd bwriad i'r ystafell gael ei defnyddio yn y dyfodol.

Gwnaethom nodi nad oedd y rhan fwyaf o'r staff yn gwisgo larymau ac nad oedd polisi nac asesiad risg ar waith i ddynodi pam nad oedd y staff wedi cael larymau. O gofio nad oes ymateb seiciatrig mewn argyfwng ar gael heblaw y rhai ar y ddwy ward, mae hyn yn peri risg i ddiogelwch y staff a'r cleifion. Yn ogystal, dywedodd rhai aelod o'r staff wrthym nad oeddent yn teimlo'n ddiogel pe bai ymddygiad y cleifion yn gwaethygu oherwydd nifer y staff a lleoliad ynysig y wardiau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan y staff larymau a'i fod yn ymgysylltu â'r staff er mwyn dod o hyd i atebion i wneud iddynt deimlo'n fwy diogel pan fyddant yn gweithio mewn ardal ynysig.

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg amrywiol a oedd wedi cael eu cynnal, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu ac asesiadau risg tân. Dywedwyd wrthym am y gwiriadau amgylcheddol sy'n cael eu cwblhau a gwelsom dystiolaeth o'r gwiriadau a gynhelir gan reolwr y ward ar y ddwy ward.

Rheolwr y ward ar ward Santes Non oedd yn gyfrifol am gwblhau ac uwchgyfeirio risgiau. Cawsom wybod bod cais wedi'i wneud am gyfarpar i atal pwyntiau clymu, ond bod rhai materion o hyd.

Roedd prosesau ar waith ar y ddwy ward mewn perthynas â'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwelyau proffilio uchel-isel er mwyn helpu i gynnal diogelwch cleifion sy'n llai sefydlog ac sydd â phroblemau symudedd. Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg ar waith ar gyfer unigolion sy'n defnyddio'r gwelyau hyn; ond nid oedd yn glir a oedd asesiadau risg wedi cael eu cwblhau ar gyfer unigolion eraill ar y wardiau a allai ddefnyddio'r gwelyau hyn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfarpar i atal pwyntiau clymu yn cael ei ddarparu a bod asesiadau risg yn cael eu cwblhau mewn perthynas â gwelyau proffilio uchel i gleifion ar y wardiau.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd digwyddiadau yn cael eu cofnodi ar system rhoi gwybod am ddigwyddiadau'r bwrdd iechyd (DATIX).

Edrychodd aelodau'r tîm arolygu ar amgylchedd yr ysbyty wrth iddynt gael eu tywys o amgylch yr ysbyty ar noson gyntaf yr arolygiad ac yn ystod diwrnodau eraill yr arolygiad. Ar y cyfan, roedd yr ysbyty yn edrych yn lân ac yn daclus, ond roedd angen gwella'r rhannau canlynol o'r amgylchedd:

- Llwydni ac awyru gwael yn y ddwy ystafell golchi dillad
- Mae angen newid ffenestr wydr sydd wedi cracio ar ward Santes Non sy'n arwain at yr iard
- Mae angen trwsio neu newid peiriant malu'r olchfa ar y ddwy ward gan nad yw'r un o'r ddau yn gweithio ar hyn o bryd
- Mae angen cael gwared ar eitemau yn yr ystafell therapi galwedigaethol a'i thacluso, a sicrhau na chaiff ei defnyddio fel ystafell storio
- Mae arwyddion anghywir ar rai drysau ar ward Sant Caradog a allai beri risg os caiff larymau tân eu defnyddio
- Mae angen adolygu'r canllawiau yn y ward ac yn yr ystafelloedd ymolchi ar ward Santes Non er mwyn sicrhau bod canllawiau ar gael a'u bod yn briodol ac yn ddiogel i'r grŵp cleifion
- Mae gorchuddion thermostatau ar goll yn ystafelloedd rhai cleifion ar ward Santes Non ac mae angen gosod rhai newydd yn eu lle.

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol a'u datrys mewn modd prydlon ac amserol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Disgrifiwyd system o drefniadau archwilio rheolaidd o ran rheoli heintiau. Roedd y trefniadau hyn yn cael eu rhoi ar waith er mwyn ceisio nodi meysydd i'w gwella fel bod modd cymryd camau priodol lle bo angen. Cadarnhaodd y staff fod amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol yn yr ysbyty. Roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau a gwelwyd bod y staff yn cyflawni eu dyletswyddau glanhau yn effeithiol.

Gwnaethom adolygu sampl o archwiliadau a oedd yn gysylltiedig ag atal a rheoli heintiau, gan gynnwys hylendid dwylo, gan nodi lefelau cydymffurfiaeth uchel. Roedd yr archwiliadau hyn yn cael eu hategu gan archwiliadau rheolaidd gan reolwr y ward. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw bosteri defnyddiol ar hylendid yn cael eu harddangos. Ar adeg yr arolygiad, roedd yr ysbyty yn lân, yn daclus ac yn drefnus iawn.

Nid oedd y cyfarpar glanhau bob amser yn cael ei storio a'i drefnu'n briodol. Nid oedd deunyddiau COSHH yn cael eu storio mewn cwpwrdd dan glo ac roedd

silindrau ocsigen yn cael eu storio mewn ffordd amhriodol ar ward Santes Non. Tynnwyd sylw'r staff at y mater hwn, a chafodd ei ddatrys ar unwaith.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod silindrau ocsigen a chyfarpar COSHH yn cael eu storio'n gywir bob amser.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisiau a phrosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion a phlant agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd staff y wardiau yn gallu gweld gweithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd drwy'r fewnrwyd. Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff y wardiau eu bod yn hyderus bod staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu. Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, roeddent yn gallu dangos gwybodaeth am y broses ar gyfer atgyfeirio achos diogelu.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisiau perthnasol, fel rheoli meddyginiaethau a thawelyddu cyflym, yn gyfredol ac ar gael i'r staff ar ffurf electronig ar gyfrifiaduron yn yr ystafelloedd clinig.

Roedd cofnodion meddyginiaeth yn gynhwysfawr ac yn gyflawn, a gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau yn cael eu cynnal. Roedd tystiolaeth dda i ddangos bod y staff yn sicrhau bod gan y cleifion gynlluniau rheoli meddyginiaeth unigol. Roedd yn amlwg bod y cleifion wedi bod yn rhan o'r cynlluniau hyn a bod trafodaethau wedi'u cynnal.

Nodwyd bod meddyginiaeth dros y cownter i drin mân anhwylderau (meddyginiaethau argroenol dros y cownter) yn cael ei storio ar silff o dan y troli meddyginiaeth ar ward Santes Non.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod meddyginiaethau dros y cownter yn cael eu storio'n gywir ac yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.

Roedd y fferyllfa'n rhoi mewnbwn rheolaidd ac roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal a oedd yn cynorthwyo'r broses o reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaeth ar y ward. Mae'r fferylllydd dynodedig yn cwblhau cwrs rhagnodi ar hyn o bryd ac yn archwilio meddyginiaeth yn rheolaidd.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a rhoi cyffuriau a reolir yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o dymheredd yr oergell feddyginiaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellwyd gan y gwneuthurwr ar ward Sant Caradog. Fodd bynnag, roedd rhai bylchau ar ward Santes Non lle nad oedd gwiriadau tymheredd wedi'u cofnodi.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwiriadau tymheredd yn cael eu cofnodi'n gyson.

Ar y cyfan, roedd yr ardaloedd clinigol yn lân, yn daclus ac yn drefnus; ond roedd eitemau anniben ar ben yr oergell ar ward Santes Non ac roedd yno feddyginiaeth hen yr oedd angen cael gwared arni. Yn ogystal, nid oedd bin gwastraff clinigol ar gael ar ward Santes Non.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod hen feddyginiaeth yn cael ei gwaredu a bod biniau gwastraff clinigol ar gael mewn ystafelloedd clinigol.

Roedd y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth a welwyd gennym wedi'u cwblhau'n llawn. Gwelsom sawl rownd meddyginiaeth, a gwelsom fod y staff yn rhoi meddyginiaeth mewn modd priodol a phroffesiynol, gan ryngweithio â'r cleifion mewn ffordd barchus ac ystyriol.

Ymddygiad heriol

Yn ôl pob golwg, mae'r staff yn mynd i'r afael â sefyllfaoedd heriol gan ddefnyddio technegau tawelu, tynnu sylw a gweithgareddau therapiwtig. Ymddengys mai pan fetho popeth arall y defnyddir dulliau atal corfforol a chemegol, ac roedd hyn wedi'i adlewyrchu mewn cynlluniau gofal.

Dywedodd y staff ei bod yn anodd "newid" rhwng dulliau gofalu pan fyddant yn darparu gofal i gleifion ag anghenion organig a swyddogaethol. Dywedodd y staff eu bod yn cael hyfforddiant yn y ddau faes, ond roeddent yn teimlo bod angen rhagor o gymorth arnynt.

Gwelodd y tîm arolygu achosion cadarnhaol o ailgyfeirio a thawelu ymddygiadau anodd yn ystod yr arolygiad. Roedd yr achosion hyn yn cael eu trin mewn ffordd gefnogol iawn, llawn parch.

Dangosodd y rhan fwyaf o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt fod y defnydd o ddulliau atal yn cael ei ddogfennu. Fodd bynnag, yng nghofnod un claf y gwnaethom edrych arno, nid oedd unrhyw fanylion disgrifiadol o ran ystumiau'r claf a'r staff wrth ddefnyddio daliad diogel. Nid oedd unrhyw beth wedi'i gofnodi ar gyfer arsylwadau ar ôl ymyriad ar ôl i'r claf gael meddyginiaeth fewngyhyrol. Yn ogystal, nid oedd unrhyw beth wedi'i gofnodi yng nghofnod y claf ar gyfer arsylwadau ar ôl ymyriad ar ôl i'r claf gael y feddyginiaeth.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod daliadau diogel yn cael eu disgrifio'n fanwl a bod arsylwadau ar gleifion yn cael eu cofnodi ar ôl defnyddio unrhyw ddull atal neu ymyriad meddygol.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Ar y cyfan, gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau diogelwch cleifion. Cadarnhaodd y staff fod ôl-drafodaethau yn cael eu cynnal ar ôl digwyddiadau. Cadarnhaodd y cyfarfodydd y gwnaethom eu mynychu a'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad y caiff digwyddiadau a'r defnydd o ymyriadau corfforol eu gwirio a'u goruchwyllo.

Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar ffurf electronig. Roedd cyfrinair ar y system electronig er mwyn atal achosion o fynediad heb awdurdod ac achosion o dor-cyfrinachedd. Gwnaethom ddefnyddio'r system drwy gydol yr arolygiad a nodwyd gennym fod cofnodion y cleifion yn gynhwysfawr ac yn drefnus.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn perthynas â chofnodion cleifion a chynlluniau gofal yn adran Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal yr adroddiad hwn.

Maeth a hydradu

Roedd yr ysbyty yn darparu prydau bwyd i'r cleifion ar y ward, a gallent ddewis o fwydlen yr ysbyty. Caiff y cleifion eu helpu i archebu prydau cludfwyd pan fo angen hefyd.

Dywedwyd wrthym y darperir ar gyfer gofynion deietegol penodol, ond dywedodd y cleifion wrthym nad oedd llawer o opsiynau nac amrywiaeth o ran prydau heb glwten.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod opsiynau heb glwten yn cynnwys mwy o amrywiaeth i'r cleifion.

Roedd cegin ar gael i'r cleifion fel y gallent baratoi eu byrbrydau neu eu diodydd eu hunain hefyd pe bai angen. Nid oedd yn ymddangos bod rota ar waith i chwilio am fwydydd y mae eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio yn oergell y cleifion ac, yn ystod yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth bod eitemau o'r fath yn yr oergell.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff oergell y cleifion ei harchwilio ac na chaiff unrhyw nwyddau eu storio yn yr oergelloedd os yw eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol pum claf y canfuwyd bod pob un ohonynt yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a Chod Ymarfer Cymru, 1983 (diwygiwyd 2016).

Roedd cofnodion mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu storio'n briodol ac roeddent yn drefnus ac yn daclus. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd galluedd y cleifion a'u gallu i gydsynio yn cael eu hasesu na'u cofnodi yn ystod tri mis cyntaf y driniaeth fel mater o drefn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cydsyniad a'r gallu i gydsynio yn cael eu hasesu yn ystod tri mis cyntaf y driniaeth yn unol â pharagraff 25.18 o Godau Ymarfer Cymru.

Ar ward Santes Non, mae gan y bwrdd iechyd ffurflenni ar gyfer cynnal asesiadau galluedd ac asesiadau lles pennaf o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Gwelsom dystiolaeth o'r rhain yn cael eu defnyddio mewn perthynas â phenderfyniadau am lety cleifion ar ôl eu rhyddhau. Fodd bynnag, nid oedd y ffurflenni hyn yn cael eu defnyddio fel mater o drefn mewn perthynas â chleifion nad oedd ganddynt alluedd i wneud penderfyniadau penodol am agweddau ar eu gofal a'u triniaeth a oedd y tu hwnt i ddarpariaethau'r Ddeddf yn ystod eu harhosiad ar y ward. Roedd hyn yn cynnwys penderfyniadau Na Cheisier Dadebru (DNAR) a drafodwyd mewn rowndiau ward ond na chawsant eu cofnodi'n ffurfiol fel penderfyniadau lles pennaf.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau, lle y bo'n briodol, fod penderfyniadau penodol am ofal a thriniaeth cleifion yn cael eu gwneud fel y nodir yn y fframwaith ar gyfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol, yn unol â pharagraff 13.7 o Godau Ymarfer Cymru.

Yng nghofnod un claf ar ward Sant Caradog, yr awdurdodwyd absenoldeb o fwy na 7 diwrnod iddo, nid oedd unrhyw gofnod bod y gwasanaeth wedi ystyried a ddylai Gorchymyn Triniaeth Gymunedol gael ei drefnu ar gyfer y claf yn lle hynny.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau pan ganiateir absenoldeb o fwy na 7 diwrnod fod y clinigydd cyfrifol yn ystyried a allai Gorchymyn Triniaeth Gymunedol fod yn opsiwn mwy addas, yn unol â pharagraff 27.8 -27.9.

Nodwyd bod adroddiadau gan Weithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn cael eu darparu yn fuan ar ôl derbyn cleifion a bod y rhain o safon uchel.

Ar y cyfan, roedd system effeithlon ac effeithiol ar waith gan weinyddydd y Ddeddf Iechyd Meddwl i gefnogi'r gwaith o fonitro ac adolygu gofynion cyfreithiol y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom edrych ar gynlluniau gofal chwe chlaf. Gwnaethom adolygu sampl o ffeiliau gofal a gwelsom eu bod yn cael eu cadw i safon dda.

Roedd y cofnodion yn gynhwysfawr ac roedd adnoddau asesu cydnabyddedig yn cael eu defnyddio i fonitro iechyd meddwl a chorfforol.

Roedd y cynlluniau gofal yn fanwl iawn, wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn adlewyrchu amrywiaeth eang o elfennau o gyfranogiad gan y tîm amlddisgyblaethol.

Roedd y broses o reoli ymddygiadau'r cleifion yn cael ei hadlewyrchu yn eu cynlluniau gofal a'r proffil rheoli risg, ac roedd hyfforddiant ar gael i'r staff i ddefnyddio sgiliau i reoli sefyllfaoedd anodd a'u tawelu.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod y ffeiliau gofal yn dangos yn glir fod y cleifion yn rhan o drafodaethau gofal a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn cael eu llofnodi gan y claf. Roedd y cofnodion hefyd yn cynnwys tystiolaeth o lais y cleifion er mwyn adlewyrchu eu barn.

Roedd tystiolaeth dda i ddangos bod asesiadau poen yn cael eu cynnal, ac os oedd newid yng nghyflwr y cleifion, byddai asesiadau risg yn cael eu cwblhau. Roedd gwaith monitro iechyd corfforol yn cael ei gofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion. Ar y cyfan, roedd y ddogfennaeth nyrsio a welsom yn dda ac roedd yr asesiadau corfforol yn gynhwysfawr.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd gan yr ysbyty strwythur sefydliadol clir, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y trefniadau hyn wedi'u diffinio yn ystod y dydd, ac roedd systemau ar gyfer uwch-reolwyr a gwasanaeth ar alw ar waith ar gyfer y shifft nos.

Yn ystod y cyfweiliadau â'r staff, roeddent yn gwbl ymwybodol o'r systemau ar alw sydd ar waith yn yr ysbyty.

Roedd prosesau gweithredu'r ysbyty yn cael eu hategu gan drefniadau llywodraethu, polisiau a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd.

Gwelsom dîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol a oedd yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau ac roeddent yn ymddangos yn wybodus am anghenion gofal y cleifion roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Yn ystod ein hamser ar y ward, gwelsom ddiwylliant cadarnhaol a oedd yn cynnwys cydberthnasau da rhwng y staff y nodwyd gennym eu bod yn cydweithio'n dda fel tîm. Roedd hi'n amlwg bod y staff yn ceisio darparu lefelau uchel o ofal i'r grwpiau cleifion.

Siaradodd y staff yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth yn yr ysbyty a chan uwch-reolwyr yng nghyfarwyddiaeth iechyd meddwl y bwrdd iechyd. Roedd y staff hefyd yn canmol y cymorth gan gydweithwyr a oedd yn gweithio yn yr ysbyty, gan gyfeirio at ethos da o weithio fel tîm yn yr ysbyty.

Yn ystod y cyfweiliadau â'r staff, gwnaethom ofyn am y diwylliant ar y wardiau. Roedd y sylwadau a gawsom yn cynnwys:

“Mae'r tîm o staff yn canolbwyntio ar y cleifion ac yn eu cefnogi. Mae'r tîm rheoli yn cefnogi'r staff a dyna'r diwylliant a gaiff ei feithrin gan reolwr y ward”.

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau yn gyflym â'r staff yn yr ysbyty ac yn y sefydliad yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn helpu i hybu diogelwch cleifion ac i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Roedd cyfarfodydd staff, a gofnodwyd, yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar y ddwy ward; câi'r cofnodion eu rhannu â'r aelodau hynny o'r staff nad oeddent yn bresennol yn y cyfarfod.

Roedd y bwrdd iechyd wrthi'n cwblhau gwaith adnewyddu ar ward Sant Caradog pan gynhaliwyd yr arolygiad.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd y lefelau staffio i'w gweld yn briodol i gefnogi diogelwch y cleifion yn yr ysbyty ar adeg ein harolygiad. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym hefyd y bu adegau pan oedd nifer y staff islaw'r hyn sy'n ofynnol i alluogi'r staff i gefnogi'r cleifion yn effeithiol.

Hefyd, nododd cyfweiliadau â'r staff fod angen amrywiaeth o setiau sgiliau i ofalu am gleifion ag anghenion cymhleth ychwanegol a oedd yn rhoi baich ychwanegol ar y staff rheolaidd sy'n gweithio yn yr ysbyty. Roedd gofalu am y cleifion wedi dod yn fwy heriol yn gorfforol, roedd yn cymryd mwy o amser ac, o ganlyniad, roedd yn effeithio ar lesiant y staff.

Dywedodd y staff wrthym na fu unrhyw gynnydd o ran y prosiect staffio diogel ac, o ganlyniad, nododd y staff fod angen i'r bwrdd iechyd ymgymryd â'i adolygiad ei hun o lefelau staffio gan nad oedd un wedi cael ei gynnal ers tro a gan fod yr amgylchedd roeddent yn gweithio ynddo yn mynd yn fwy heriol a chymhleth.

Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Caiff y wardiau eu rhedeg ar ewyllys da y staff sy'n gwneud shifftiau ychwanegol er mwyn cefnogi eu tîm”.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r lefelau staffio er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y grŵp cleifion.

Siaradodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom gyfweld â nhw yn frwdfrydig am eu rolau. Gwelsom waith tîm cryf drwy gydol yr arolygiad.

Roedd staff newydd yn dilyn cyfnod sefydlu o dan oruchwyliaeth staff profiadol y ward. Dangosodd y staff dystiolaeth ddogfennol i ni gan esbonio'r systemau sefydlu sydd ar waith yn yr ysbyty.

Roedd swyddi gwag ar y ddwy ward. Dywedwyd wrthym fod y swyddi wedi cael eu hysbysebu a dywedodd y tîm rheoli wrthym eu bod yn ceisio llenwi swyddi gwag a recriwtio staff parhaol er mwyn lleihau'r angen i ddefnyddio staff asiantaeth.

Roedd y lefelau staffio i'w gweld yn briodol i gefnogi diogelwch y cleifion yn yr ysbyty ar adeg ein harolygiad. Fodd bynnag, mae angen i'r bwrdd iechyd roi sylw i sylwadau'r staff yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â nifer y staff, diogelwch y staff a'r ffordd y mae hyn yn effeithio ar lesiant y staff.

Roedd y staff yn gallu cael gafael ar y rhan fwyaf o'r dogfennau y gofynnodd y tîm arolygu amdanynt mewn ffordd brydlon ac amserol, sy'n dangos bod systemau llywodraethu da ar waith yn yr ysbyty.

Darparwyd amrywiaeth o bolisiâu i ni, y cafodd y mwyafrif ohonynt eu diweddarau, ond nid oedd y polisi arsylwadau yn gyfredol ac roedd i fod i gael ei adolygu ym mis Awst 2023.

Ystyriodd y tîm arolygu lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant y staff a rhoddwyd rhestr o gydymffurfiaeth staff â hyfforddiant gorfodol i'r tîm. Roedd y ffigurau hyfforddiant yn dangos bod angen gwneud gwelliannau ar ward Sant Caradog gan mai 77 y cant oedd y lefel gydymffurfiaeth gyffredinol â hyfforddiant gorfodol, ac 85 y cant ar ward Santes Non. Mae angen gwella hyfforddiant Cynnal Bywyd Brys ar y ddwy ward hefyd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol yn gwella.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau yn gyflym â'r staff yn yr ysbyty ac yn y sefydliad yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn helpu i hybu diogelwch cleifion ac i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Gwelsom fod gwybodaeth wedi cael ei darparu i'r staff am ofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd newydd. Hefyd, dywedodd y staff wrthym y byddent yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am ofal cleifion neu faterion eraill yn yr ysbyty a'u bod yn teimlo'n hyderus y byddai'r bwrdd iechyd yn mynd i'r afael â'u pryderon. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i roi arweiniad ar sut y gall y staff godi pryderon ac roedd gwasanaeth llesiant staff ar gael i'r staff.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 yn y wardiau.

Dywedwyd wrthym fod gan bob aelod o'r staff ei fanylion mewngofnodi ei hun i'r cyfrifiaduron er mwyn helpu i gynnal prosesau llywodraethu gwybodaeth. Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chadw cofnodion cywir a chynnal cyfrinachedd.

Drwy archwilio'r cofnodion hyfforddi, gwnaethom gadarnhau bod y staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd ward Sant Caradog wedi cael gwobr Efydd ar gyfer gofalcwyr ac roedd yn gadarnhaol clywed bod y tîm o staff yn gweithio tuag at ennill gwobr arian.

Roedd staff ar y ddwy ward yn cael eu cefnogi drwy'r rhaglen nyrsio 'meithrin ein nyrsys' er mwyn recriwtio a chadw staff.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd y staff yn gallu disgrifio sut mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu â phartneriaid i ddarparu gofal cleifion a chyflwyno datblygiadau. Dywedwyd wrthym eu bod yn ymgysylltu ag asiantaethau partner allanol, gan gynnwys awdurdodau lleol, meddygon teulu, tai a gwasanaethau iechyd cymunedol er mwyn sicrhau dull systemau cyfan o ddarparu gofal cleifion.

Dywedwyd wrthym fod yr uwch-staff yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd ar y cyd ag asiantaethau i drafod materion a meithrin cydberthnasau gwaith cadarn. Roedd yn gadarnhaol gweld bod y meddyg ymgynghorol wedi cynnal cydberthnasau da â'r timau iechyd meddwl cymunedol a'i fod yn wyneb cyfarwydd, sefydlog, cefnogol a chyson i'r cleifion a'r staff.

Drwy gyfweiliadau â'r staff, nodwyd bod hebrwng cleifion y mae angen triniaethau meddygol arnynt yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys ym mhrif Ysbyty Llwynhelyg, ac aros gyda nhw, yn cael cryn effaith ar adnoddau staff a llesiant y cleifion. Gallai mynd â chleifion draw i ddefnyddio gwasanaethau gymryd llawer o amser a rhoi cryn bwysau ar adnoddau'r ddwy ward.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu a thrafod y goblygiadau hyn â staff o bob maes a cheisio pennu cytundeb lefel gwasanaeth rhwng yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys a wardiau Santes Non a Sant Caradog er mwyn ceisio lleihau'r problemau staffio a'r pryder i'r cleifion sy'n wynebu cryn oedi.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Cyfarpar COSHH a silindrau ocsigen yn cael eu storio mewn ffordd amhriodol	Risg i ddiogelwch y cleifion a'r staff	Wedi'i uwchgyfeirio at yr Uwch-reolwyr yn y bwrdd iechyd	Symudwyd y cyfarpar COSHH a'r silindrau ocsigen a'u storio'n briodol.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Wardiau Sant Caradog a Santes Non, Bro Cerwyn, Ysbyty Llwynhelyg.

Dyddiad yr arolygiad: 16 - 18 Hydref 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion lle mae angen sicrwydd ar unwaith				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Wardiau Santes Non a Sant Caradog, Bro Cerwyn, Ysbyty Llwynhelyg

Dyddiad yr arolygiad: 6 - 18 Hydref 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Roedd y gerddi wedi gordyfu ac yn peri risg i ddiogelwch y cleifion.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud i wella edrychiad a diogelwch yr ardaloedd awyr agored er mwyn i'r cleifion eu defnyddio.	Mae'r tîm ystadau wedi ymweld â'r safle ac wedi mynd i'r afael â nifer o'r pryderon hyn. Mae contract newydd ar waith ar gyfer y tir a'r gerddi (a fydd yn dod i rym ar ddechrau 2024) ac mae ymweliadau rheolaidd â'r safle wedi'u trefnu er mwyn sicrhau bod y tir yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dderbyniol.	Rheolwr Ystadau	29/02/24
		Rhoddir amserlen ar waith o ymweliadau rheolaidd ar y	Penaethiaid Gwasanaeth	31/01/24

		cyd gan y tîm Ystadau ac Uwch-nyrsys Cleifion Mewnol er mwyn adolygu a monitro amgylcheddau wardiau, gan uwchgfyfeirio adborth neu bryderon i Grŵp Strategaeth ar gyfer Llety yr Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu drwy Benaethiaid Gwasanaeth.		
Nid oedd yn glir a oedd gwely presennol claf yn diwallu anghenion y claf.	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu sefyllfa'r claf hwn a sicrhau yr ystyrir darparu gwely newydd ar ei gyfer.	Cynhaliwyd Asesiad Therapi Galwedigaethol a'i ddogfennu mewn cofnod clinigol ar 16 Hydref 2023. Mae angen cynnal adolygiad galwedigaethol er mwyn ailymweld â chleifion unigol.	Therapydd Galwedigaethol y Ward a'r Therapydd Galwedigaethol Cylchdro	11/12/23
Mae angen i fyrddau gwybodaeth gynnwys rhagor o wybodaeth i gleifion ac ymwelwyr.	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r hysbysfyrddau ar y ward a sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol ac yn berthnasol. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y rhoddir sylw penodol i'r wybodaeth a gaiff ei harddangos. Rhaid i'r wybodaeth sy'n cael ei	Mae posteri dwyieithog â gwybodaeth am rôl AGIC a'i manylion cyswllt wedi cael eu cynhyrchu, eu dosbarthu ac maent bellach wedi'u harddangos ym mhob ward.	Tîm Sicrhau Ansawdd a Datblygu Ymarfer.	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.

	harddangos fod yn berthnasol i'r cleifion a'r ymwelwyr.	Adolygwyd yr hysbysfyrddau presennol ar y ddwy ward er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol ac yn berthnasol. Mae angen adolygu'r trefniadau ar gyfer cynnal Gwiriadau Wardiau lach er mwyn cynnwys cynrychiolwyr o blith defnyddwyr y gwasanaeth / gofalwyr yn y timau gyda'r nod o gryfhau'r prosesau rheolaidd i adolygu ansawdd, perthnasedd a hygyrchedd gwybodaeth i gleifion ac ymwelwyr drwy Wiriadau Wardiau lach.	Rheolwyr y Wardiau, wardiau Sant Caradog a Santes Non. Uwch-nyrs ar gyfer Sicrhau Ansawdd a Datblygu Ymarfer.	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. 29/02/24
Nid oedd y staff yn gwisgo larymau personol a dywedodd rhai aelodau o'r staff eu bod yn teimlo'n anniogel oherwydd y lleoliad ynysig.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan y staff larymau a'i fod yn ymgysylltu â'r staff er mwyn dod o hyd i atebion i wneud iddynt deimlo'n fwy diogel pan fyddant yn gweithio mewn ardal ynysig.	Mae larymau personol ar waith ar bob ward. Mae'r larymau wedi'u rhifo a chânt eu dyrannu i'r staff fesul shift a chofnodir hyn ar daflen dyrannu. Camau pellach:		

	Trafod â'r staff mewn cyfarfodydd tîm i'w hatgoffa o bwysigrwydd defnyddio larymau personol pan fyddant ar shifft.	Rheolwr y Wardiau, Ward Sant Caradog a Ward Santes Non.	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.
	Cynnal profion ar y safle er mwyn asesu problem a nodwyd gan aelod o'r staff ynglŷn â signal larymau personol ar ward Sant Caradog. Trafod opsiynau i fynd i'r afael â hyn â chyflenwr y larymau, a rhoi datrysiad ar waith.	Pennaeth Ystadau, Risg a Chydymffurfiaeth.	31/12/23
	Diweddarau asesiad risg ward Sant Caradog mewn perthynas â thrais ac ymddygiad ymosodol er mwyn adlewyrchu'r mater uchod.	Rheolwr Achos Trais ac Ymddygiad Ymosodol/Cynghorydd Diogelwch.	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.
	Caiff y risg ei hychwanegu at Gofrestr Risg y Gwasanaeth er mwyn adlewyrchu'r bwlch yn signal larymau personol mewn rhan benodol o ward Sant Caradog a chynnwys	Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer Cleifion Mewnol, Anableddau Dysgu a Chyswllt.	31/12/23

		mesurau lliniaru a chatau i olrhain y broses o ddatrys y risg. Caiff sesiwn hyfforddiant / ymgysylltu â staff ei chynnal gyda thimau wardiau Sant Caradog a Santes Non a'r Cynghorydd Diogelwch er mwyn ailystyried prosesau ac arferion diogelwch.	Rheolwyr y Wardiau, wardiau Sant Caradog a Santes Non.	31/12/23
Nid oedd y staff wedi cael y cyfarpar i atal pwyntiau clymu y gofynnwyd amdano.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfarpar i atal pwyntiau clymu yn cael ei ddarparu a bod asesiadau risg yn cael eu cwblhau mewn perthynas â gwelyau proffilio uchel i gleifion ar y wardiau.	Cynnal Asesiadau Pwyntiau Clymu a datblygu cynlluniau gweithredu yn nodi gwaith a gosodiadau/ffitiadau sydd eu hangen ar wardiau Santes Non a Sant Caradog yn unol â Pholisi/Gweithdrefn 1069 y Bwrdd Iechyd. Cytuno ar amserlen prosiect ar gyfer mynd i'r afael â cham nesaf y gwaith i gael gwared	Swyddog Iechyd a Diogelwch a Rheolwr y Ward Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.

		ar Bwyntiau Clymu ar draws y gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu i gleifion mewnol sy'n nodi camau ac amserlenni ar gyfer cwblhau'r prosiect.	Rheolwr Prosiectau Cyfalaf Dewisol	31/01/24
Mae angen cynnal asesiadau risg ar y defnydd o welyau proffilio Uchel-Isel ar gyfer pob claf ar y wardiau.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu cwblhau mewn perthynas â gwelyau proffilio uchel i gleifion ar y wardiau.	Mae pob gwely proffilio uchel-isel a ddefnyddir ar y wardiau wedi'i gynnwys yn asesiad risg o bwyntiau clymu y wardiau.	Rheolwr y Ward, Ward Santes Non.	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.
Gwnaethom nodi sawl mater addurnol ac amgylcheddol yr oedd angen rhoi sylw iddynt: - Llwydni ac awyru gwael yn y ddwy ystafell golchi dillad - Mae angen newid ffenestr wydr sydd wedi cracio ar ward Santes Non sy'n arwain at yr iard	Rhaid i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol a'u datrys mewn modd prydlon ac amserol.	Mae'r llwydni wedi cael ei lanhau ac mae'r ardal wedi cael ei hail-deilsio. Bydd y Tîm Ystadau yn adolygu'r ardal ac yn cymryd camau pellach i fynd i'r afael â'r diffygion awyru er mwyn atal llwydni pellach.	Rheolwr Ystadau. Rheolwr Ystadau	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. 31/01/24.

- Mae angen trwsio neu newid peiriant malu'r olchfa ar y ddwy ward gan nad yw'r un o'r ddau yn gweithio ar hyn o bryd - Mae angen cael gwared ar eitemau yn yr ystafell therapi galwedigaethol a'i thacluso, a sicrhau na chaiff ei defnyddio fel ystafell storio - Mae arwyddion anghywir ar rai drysau ar ward Sant Caradog a allai beri risg os caiff larymau tân eu defnyddio - Mae angen adolygu'r canllawiau yn y ward ac yn yr ystafelloedd ymolchi ar ward Santes Non er mwyn sicrhau bod canllawiau ar gael		Mae'r gwydr wedi cael ei newid. Mae peiriannau malu'r olchfa bellach yn gweithio. Mae'r ystafell therapi galwedigaethol wedi cael ei threfnu. Mae llai o eitemau ynddi ac rydym wedi cael gwared ar gyfarpar amhriodol neu gyfarpar nad yw'n hanfodol. Caiff gwaith monitro ei gwmpasu gan y cam gweithredu a ychwanegwyd yn gynharach yn y cynllun ar gyfer ymweliadau monitro/adolygu ar y cyd gan Benaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Ystadau. Darperir cyfleusterau storio ychwanegol yn yr ystafell therapi galwedigaethol.	Rheolwr Ystadau. Rheolwr Ystadau. Therapydd Galwedigaethol y Ward a'r Therapydd Galwedigaethol Cylchdro.	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. 30/01/24 31/12/23
---	--	--	---	---

a'u bod yn briodol ac yn ddiogel i'r grŵp cleifion Mae gorchuddion thermostatau ar goll yn ystafelloedd rhai cleifion ar ward Santes Non ac mae angen gosod rhai newydd yn eu lle.		Mae gwaith gwella ac addurno yn mynd rhagddo gan y Tîm Ystadau ar ward Sant Caradog ar hyn o bryd. Caiff arwyddion dros dro eu gosod. Mae canllawiau wedi'u gosod yn yr iard ac yng nghoridorau ward Santes Non. Caiff adolygiad ei gynnal o'r gofynion o ran canllawiau mewn ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi, a sut y gellir bodloni'r gofynion hyn gan ddefnyddio cynhyrchion i atal pwyntiau clymu. Bydd y tîm ystadau yn edrych ar orchuddion thermostatau ac yn sicrhau y caiff rhai addas eu gosod yn eu lle yn ystafelloedd cleifion ar ward Santes Non.	Rheolwr Ystadau Pennaeth Ystadau, Risg a Chydymffurfiaeth. Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion Hŷn. Rheolwr Ystadau.	31/01/24 31/01/24
---	--	---	---	---------------------------------

Nid oedd cyfarpar COSHH a silindrau ocsigen yn cael eu storio'n gywir.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod silindrau ocsigen a chyfarpar COSHH yn cael eu storio'n gywir bob amser.	Cymerwyd camau i osod silindrau ocsigen ar y wal yn yr holl ardaloedd clinig ar gyfer cleifion mewnol ar y wardiau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Mae cabinet newydd wedi cael ei brynu a'i osod er mwyn storio eitemau COSHH yn gywir.	Pennaeth Ystadau, Risg a Chydymffurfiaeth. Rheolwr y Ward, Ward Santes Non.	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.
Roedd meddyginiaeth dros y cownter i drin mân anhwylderau (meddyginiaethau argroenol dros y cownter) yn cael ei storio ar silff o dan y troli meddyginiaeth ar ward Santes Non.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod meddyginiaethau dros y cownter yn cael eu storio'n gywir ac yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.	Gwnaed trefniadau i leihau maint cymysgeddau argroenol a ddarperir i'r ward er mwyn hwyluso trefniadau storio. Caiff y trefniadau i storio meddyginiaeth ar y ward eu hadolygu a chymerir camau i nodi, prynu a gosod cyfleusterau storio/cyfarpar er mwyn bodloni gofynion y ward yn llawn.	Fferyllydd Iechyd Meddwl Arweiniol. Rheolwr y Ward, Ward Santes Non.	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. 31/04/24

Roedd bylchau ar ward Santes Non lle nad oedd gwiriadau tymheredd yr oergell wedi'u cofnodi.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwiriadau tymheredd yn cael eu cofnodi'n gyson.	Mae rhestr wirio yn ystod y nos a gwiriadau wythnosol gan reolwr y ward wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn goruchwyllo'r broses wirio fel mater o drefn.	Rheolwr y Ward, Ward Santes Non.	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.
Roedd hen feddyginiaeth yn cael ei storio ar ben yr oergell mewn ystafell glinigol ar ward Santes Non.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod hen feddyginiaeth yn cael ei gwaredu a bod biniau gwastraff clinigol ar gael mewn ystafelloedd clinigol.	Cafwyd cadarnhad bod biniau gwastraff clinigol wedi'u gosod mewn ystafelloedd clinigol. Mae angen cael bin meddyginiaeth â chaead glas a'i osod yn yr ystafell glinigol er mwyn cael gwared ar feddyginiaethau.	Rheolwyr y Wardiau, wardiau Sant Caradog a Santes Non.	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.
Yng nghofnod un claf yr edrychwyd arno, nid oedd unrhyw fanylion disgrifiadol o ran ystumiau'r claf a'r staff wrth ddefnyddio daliad diogel.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod daliadau diogel yn cael eu disgrifio'n fanwl a bod arsylwadau ar gleifion yn cael eu cofnodi ar ôl defnyddio unrhyw ddull atal neu ymyriad meddygol.	Caiff staff y ward eu hatgoffa drwy gyfarfodydd staff am y gofyniad i sicrhau bod dogfennaeth yn gynhwysfawr yn unol â'r Polisi Lleihau	Rheolwyr y Wardiau, wardiau Sant Caradog a Santes Non	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.

Yn ogystal, nid oedd unrhyw beth wedi'i gofnodi ar gyfer arsylwadau ar ôl ymyriad ar ôl i'r claf gael meddyginiaeth fewngyhyrol.

Arferion Cyfyngol a'r Polisi Tawelyddu Cyflym.

Gwneir cais i reolwyr y wardiau/dirprwy reolwyr y wardiau adolygu dogfennaeth glinigol yn dilyn y defnydd o ddaliadau diogel, drwy'r broses i adolygu camau i reoli digwyddiad, a rhoi adborth i'r sawl sy'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau er mwyn sicrhau bod dogfennaeth yn gyflawn ac yn drylwyr.

Ymgymryd ag archwiliad o Dawelyddu Cyflym ar draws y Gyfarwyddiaeth gyfan yn erbyn y safonau ar gyfer monitro iechyd corfforol ym Mholisi Tawelyddu Cyflym y Bwrdd Iechyd er mwyn nodi bylchau mewn ymarfer a chreu camau gwella.

Cyfarwyddwr
Cynorthwyol Nyrsio ar
gyfer Iechyd Meddwl
ac Anableddau
Dysgu.

31/12/23.

			Meddyg Ymgynghorol ym maes Seiciatreg Henaint.	31/03/24.
Dywedodd y cleifion wrthym nad oedd llawer o opsiynau nac amrywiaeth o ran prydau heb glwten.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod opsiynau heb glwten yn cynnwys mwy o amrywiaeth i'r cleifion.	Pan gynhaliwyd yr arolygiad, roedd gwaith adferol yn cael ei wneud i'r ceginau (sydd bellach wedi'i gwblhau) a gafodd effaith ar y ddarpariaeth drwy gyfyngu ar y dewisiadau ar y bwydlenni. Mae ystod lawn o fwydlenni, gan gynnwys pob pryd a gynigir er mwyn bodloni amrywiadau deietegol, bellach ar gael i bob claf ar y ddwy ward.	Rheolwyr y Wardiau, wardiau Sant Caradog a Santes Non.	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.

Nid oedd yn ymddangos bod rota ar waith i chwilio am fwydydd y mae eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio yn oergell y cleifion ac, yn ystod yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth bod eitemau o'r fath yn yr oergell.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff oergell y cleifion ei harchwilio ac na chaiff unrhyw nwyddau eu storio yn yr oergelloedd os yw eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio.	Cafodd cegin y cleifion ei harchwilio ei glanhau a'i threfnu. Mae proses ar gyfer cynnal gwiriadau dyddiol o gegin ac oergell y cleifion, a wneir gan dîm y ward, wedi cael ei chyfleu i'r staff a'i rhoi ar waith.	Rheolwr y Ward, Ward Sant Caradog. Rheolwr y Ward, Ward Sant Caradog.	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.
Nid oedd galluedd y cleifion a'u gallu i gydsynio yn cael eu hasesu na'u cofnodi yn ystod tri mis cyntaf y driniaeth fel mater o drefn.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cydsyniad a'r gallu i gydsynio yn cael eu hasesu yn ystod tri mis cyntaf y driniaeth yn unol â pharagraff 25.18 o Godau Ymarfer Cymru.	Caiff grŵp gorchwyl a gorffen ei sefydlu a fydd yn cynnwys arweinwyr y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Ddeddf Iechyd Meddwl er mwyn adolygu adborth a materion ymarfer a godir mewn perthynas â galluedd a'r gallu i gydsynio gyda'r nod o lunio cynllun gwella.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.	29/02/24.
Nid oedd ffurflenni yn cael eu defnyddio fel mater o drefn mewn perthynas â chleifion nad oedd ganddynt alluedd i wneud penderfyniadau penodol	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau, lle y bo'n briodol, fod penderfyniadau penodol am ofal a thriniaeth cleifion yn cael eu gwneud fel y nodir yn y fframwaith ar gyfer y	Yr un cam gweithredu ag uchod.	Fel uchod.	Fel uchod.

am agweddau ar eu gofal a'u triniaeth a oedd y tu hwnt i ddarpariaethau'r Ddeddf yn ystod eu harhosiad ar y ward.	Ddeddf Galluedd Meddyliol, yn unol â pharagraff 13.7 o Godau Ymarfer Cymru.			
Yng nghofnod un claf ar ward Sant Caradog, yr awdurdodwyd absenoldeb o fwy na 7 diwrnod iddo, nid oedd unrhyw gofnod bod y gwasanaeth wedi ystyried a ddylai Gorchymyn Triniaeth Gymunedol gael ei drefnu ar gyfer y claf yn lle hynny.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau pan ganiateir absenoldeb o fwy na 7 diwrnod fod y clinigydd cyfrifol yn ystyried a allai Gorchymyn Triniaeth Gymunedol fod yn opsiwn mwy addas, yn unol â pharagraff 27.8 -27.9.	Ceir canllawiau mewn perthynas ag ystyried defnyddio Gorchymyn Triniaeth Gymunedol pan ganiateir absenoldeb o fwy na 7 diwrnod ym Mholisi'r Bwrdd Iechyd ar Adran 17. Caiff canllawiau ac anghenion o ran dogfennaeth eu trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Staffio Meddygol Seiciatrig ym mis Ionawr 2024. Caiff cynnwys a chynllun y ffurflen absenoldeb adran 17 eu hadolygu fel rhan o gylch tair blynedd cynlluniedig i adolygu'r polisi er mwyn cynnwys ysgogiadau i Glinigwyr Cyfrifol mewn perthynas ag ystyried Gorchymyn Triniaeth	Rheolwr Deddfwriaeth Iechyd Meddwl. Rheolwr Deddfwriaeth Iechyd Meddwl.	31/01/24. 31/10/24

		Gymunedol pan ganiateir absenoldeb o fwy na 7 diwrnod.		
Dywedodd y staff wrthym na fu unrhyw gynnydd o ran y prosiect staffio diogel a bod angen adolygu nifer y staff.	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r lefelau staffio er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y grŵp cleifion.	Mae gwaith i adolygu nifer y staff yn yr adran cleifion mewnol yn mynd rhagddo mewn partneriaeth â'r Pennaeth Nyrsio ar gyfer Safonau Proffesiynol a Rheoliadau ac Uwch-nyrsys Cleifion Mewnol. Cynhelir cyfarfodydd gyda rheolwyr y wardiau er mwyn rhoi diweddariadau ar y gwaith hwn a gaiff eu rhannu ag aelodau o'r tîm ehangach.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.	31/01/24.
Mae angen adolygu'r gofynion o ran hyfforddiant gorfodol a gwella'r canrannau sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cynnal Bywyd Brys.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol yn gwella a bod y staff yn cwblhau cyrsiau Cynnal Bywyd Brys.	Caiff cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ei monitro ar lefel ward, gwasanaeth a chyfarwyddiaeth. Mae angen adolygu hyfforddiant dadebru ar	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.	31/01/24.

		draws y gwasanaeth a datblygu cynllun er mwyn gwella cydymffurfiaeth.		
Roedd mynd â chleifion draw i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Llwynhelyg yn cymryd llawer o amser ac yn rhoi cryn bwysau ar adnoddau'r ddwy ward.	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu a thrafod y goblygiadau â staff o bob maes a cheisio pennu cytundeb lefel gwasanaeth rhwng yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys a wardiau Santes Non a Sant Caradog er mwyn ceisio lleihau'r problemau staffio a'r pryder i'r cleifion sy'n wynebu cryn oedi.	Datblygu protocolau ar y cyd ymhellach a'u rhoi ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod cleifion mewnol yr adran lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn gallu cael gafael ar wasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys a ddarperir gan yr Ysbytai Cyffredinol Dosbarth yn amserol ac yn effeithiol.	Uwch-nyrs ar gyfer Cyswllt a Chydgyssylltu Clinigol.	30/04/24.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Becky Temple-Purcell

Swydd: Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Dyddiad: 8 Rhagfyr 2023